

CYNGOR - DYDD MERCHER, 23 GORFFENNAF 2025

COFNOD O BENDERFYNIAD CYFARFOD O'R CYNGOR A GYNHALIWDYD HYBRID IN THE COUNCIL CHAMBER CIVIC OFFICES, ANGEL STREET, BRIDGEND, CF31 4WB AR DYDD MERCHER, 23 GORFFENNAF 2025 16:00

Presennol

Y Cynghorydd HJ David – Cadeirydd

H T Bennett
O Clatworthy
S Easterbrook
RM Granville
M Jones
J E Pratt
JH Tildesley MBE

A R Berrow
RJ Collins
M J Evans
GC Haines
W J Kendall
JC Spanswick
I Williams

JPD Blundell
C Davies
N Farr
D M Hughes
M Lewis
I M Spiller
E D Winstanley

E L P Caparros
P Davies
J Gebbie
M R John
J Llewellyn-Hopkins
T Thomas
T Wood

Presennol – O Bell

S Aspey
C L C Davies
M L Hughes
A Ulberini-Williams
MJ Williams

F D Bletsoe
P Ford
RM James
G Walter
R Williams

S J Bletsoe
S J Griffiths
RL Penhale-Thomas
A Wathan

N Clarke
D T Harrison
R J Smith
AJ Williams

Swyddogion:

Mark Galvin
Laura Griffiths
Lindsay Harvey
Rachel Keepins
Carys Lord
Claire Marchant
Jake Morgan
Martin Morgans

Uwch Swyddog Gwasanaethau Democrataidd – Pwyllgorau
Rheolwr Grŵp – Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd
Cyfarwyddwr Corfforaethol – Addysg, Blynnyddoedd Cynnar a Phobl Ifanc
Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd
Prif Swyddog – Cyllid, Tai a Newid
Cyfarwyddwr Corfforaethol – Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles
Prif Weithredwr
Pennaeth Gweithrediadau Dros Dro – Gwasanaethau Cymunedol

Michael Pitman
Kelly Watson

Swyddog Cymorth Technegol – Gwasanaethau Democrataidd
Prif Swyddog – Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoleiddiol, AD a Pholisi Corfforaethol

166. Ymddiheuriadau am Absenoldeb

Y Penderfyniad a Wnaed	Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr W R Goode, H Griffiths, H Williams a P W Jenkins.
Dyddiad y Gwnaed y Penderfyniad	23 Gorffennaf 2025

167. Datganiadau o Fuddiant

Y Penderfyniad a Wnaed	Gwnaed y datganiadau canlynol o fuddiant personol gan yr Aelodau:- Y Cynghorydd H Bennett – Eitem 6 ar yr Agenda, fel aelod o'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ar ran ei chyflogwr. Y Cynghorydd J Pratt – Eitem 12 ar yr agenda, fel aelod o Gyngor Tref Porthcawl. Y Cynghorydd JP Blundell – Eitem 7 ar yr Agenda, fel aelod o Gorff Llywodraethu Ysgol a grybwyllir yn yr adroddiad. Y Cynghorydd E Winstanley – Eitem 7 ar yr agenda, gan mai ei chyflogwr sy'n gyfrifol am Neuadd y Dref Maesteg a Phafiliwn y Grand, Porthcawl ac oherwydd ei bod yn Gynghorydd Cymunedol. Y Cynghorydd I Williams – Eitem 7 ar yr Agenda, fel llywodraethwr ysgol yn Ysgol Gynradd Oldcastle ac Ysgol Gyfun Brynteg. Eitem 12 ar yr agenda, fel aelod o Gyngor Tref Pen-y-bont ar Ogwr Gwnaed y datganiadau canlynol o fuddiant rhagfarnus gan Aelodau/Swyddogion. Y Cynghorydd M Evans – Eitem 7 ar yr Agenda, fel Llywodraethwr Cymunedol yn Ysgol Gynradd Croesty ac Ysgol Gyfun Pencoed. Y Cynghorydd Amanda Williams – Eitem 7 ar yr Agenda, fel Cadeirydd Bwrdd y Llywodraethwyr yn Ysgol
------------------------	--

CYNGOR - DYDD MERCHER, 23 GORFFENNAF 2025

	Gynradd Coety. Y Cyngorydd T Thomas – Eitem 7 ar yr Agenda, wrth iddo ymdrin â Llywodraeth Cymru ar bwnc Cartrefi Gwag drwy ei gyflogwr. Prif Weithredwr – Eitem 9 ar yr Agenda, fel y cyfeirir at ei safbwynt yn yr adroddiad. Prif Swyddog – Polisi Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Chorfforaethol – Eitem 9 ar yr Agenda, fel y cyfeirir at ei safbwynt yn yr adroddiad. Gadawodd yr holl Aelodau/Swyddogion uchod y cyfarfod tra bod yr eitem yr oeddent wedi datgan buddiant rhagfarnus ynddi yn cael ei ystyried.
Dyddiad y Gwnaed y Penderfyniad	23 Gorffennaf 2025

168. Cymeradwyo Cofnodion

Y Penderfyniad a Wnaed	<u>PENDERFYNWYD:</u> Bod cofnodion cyfarfod y Cabinet dyddiedig 25 Mehefin 2025, yn cael eu cymeradwyo fel cofnod gwir a chywir.
Dyddiad y Gwnaed y Penderfyniad	23 Gorffennaf 2025

169. Derbyn cyhoeddiadau gan:

Y Penderfyniad a Wnaed	Derbyniwyd cyhoeddiadau gan yr enwogion canlynol (nid oedd angen neu wneud penderfyniadau):- • Y Maer; • Y Prif Weithredwr
Dyddiad y Gwnaed y Penderfyniad	23 Gorffennaf 2025

170. Derbyn cyhoeddiadau gan yr Arweinydd

Y Penderfyniad a Wnaed	Derbyniwyd cyhoeddiadau gan yr Arweinydd (nid oedd angen neu wneud penderfyniadau).
Dyddiad y Gwnaed y Penderfyniad	23 Gorffennaf 2025

171. Siarter Teithio Iach

Y Penderfyniad a Wnaed	Cyflwynodd y Prif Swyddog – Cyllid, Tai a Newid adroddiad, a'i bwrpas oedd rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Cyngor ar waith Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Cwm Taf Morgannwg ar Siarter Teithio Iach. Cadarnhaodd yr adroddiad:- • Roedd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Cwm Taf Morgannwg wedi datblygu Siarter Teithio Iach i achosi effeithiau cadarnhaol pellgyrhaeddol ar iechyd a'r amgylchedd. • Llofnodwyd y Siarter gynt yng nghyfarfod Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gorffennaf 2025. • Mae Grŵp Defnyddwyr Teithio Llesol wedi bod yn rhan o'r gwaith gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr (BCBC) a gellir ei ehangu ymhellach i symud y Siarter ymlaen a sicrhau parhad. • Y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Cymunedau yw'r swyddog arweiniol ar gyfer BCBC mewn perthynas â'r Siarter Gofynnodd Aelod pam nad oes mwy o leoedd parcio beiciau ar gael ar hyn o bryd yn adeiladau'r Cyngor. Sicrhaodd yr Aelod Cabinet – Newid Hinsawdd a'r Amgylchedd y byddai'n edrych yn weithredol ar y mater hwn ymhellach y tu allan i'r cyfarfod. Cododd Aelod y pwynt bod adborth gan Glybiau a Chymdeithasau a beicwyr ynddynt eu hunain, yn awgrymu nad oedd nifer o lonydd beicio wedi'u cysylltu â'i gilydd ac felly eu bod ychydig yn ddigyswllt mewn rhai lleoliadau.
------------------------	---

	Fe wnaeth yr Aelod Cabinet – Newid yn yr Hinsawdd a'r Amgylchedd roi sicrwydd i'r Cyngor drwy gadarnhau bod y Grŵp Defnyddwyr Teithio Llesol yn mynd i'r afael â materion fel yr un yn union uchod, gyda chymorth ar ffurf cyllid gan Lywodraeth Cymru. Ychwanegodd yr Arweinydd fod y Siarter Teithio iach yn ddogfen ehangach nad oedd yn canolbwyntio ar feicio yn unig, ond mathau eraill o drafnidiaeth gan gynnwys cerdded a defnyddio dulliau eraill o drafnidiaeth gyhoeddus i hyrwyddo mathau mwy iach o deithio. Ychwanegodd ymhellach fod y Siarter, sydd ynghlwm yn Atodiad 1 o'r adroddiad, yn canolbwyntio ar newidiadau y gellir eu gwneud i'r ffordd yr ydym yn gweithio fel sefydliad a all alluogi teithio mwy llesol ac iach a bod rhai o'r amcanion a gynhwysir yn y Siarter yn cael eu hystyried yn weithredol i sicrhau bod y nodau hyn yn cael eu cyflawni. Nododd Aelod wrth groesawu pwyntiau gwefru cerbydau yng nghanol tref Pen-y-bont ar Ogwr, nad oedd y rhain yn perthyn i'r categori 'gwefru cyflym iawn' ac felly gofynnodd a allai rhagor gael eu darparu o'r math hwn, fel y gellid gwefru cerbydau mewn amser byrrach. Cynghorodd yr Arweinydd y gellid ystyried hyn, gan ychwanegu fodd bynnag, y byddai cost uwch yn gysylltiedig â'r modelau gwefru cyflymach. Daeth Aelod â'r ddadl ar yr eitem hon i ben, drwy ddweud y dylai pwyntiau gwefru fod ar gael yn ehangach mewn mannau o angen a/neu lle mae'n amlwg eu bod yn cael eu defnyddio mwy, er mwyn gwneud y gorau o'r cyllid a dderbyniwyd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer darparu taliadau o'r fath. <u>PENDERFYNWYD:</u> (1) Nododd y Cyngor gynnwys yr adroddiad diweddar hwn. (2) Dadleuodd ac ystyriodd y Cyngor sut i gyflawni'r gweithgareddau arfaethedig sydd wedi'u cynnwys yn y Siarter (Atodiad 1).
Dyddiad y Gwnaed y Penderfyniad	23 Gorffennaf 2025

172. Alldro Rhaglen Gyfalaf 2024–25 a Diweddariad Chwarter 1 2025–26

Y Penderfyniad a Wnaed	Cyflwynodd y Prif Swyddog – Cyllid, Tai a Newid adroddiad ar yr uchod, ac roedd crynodeb ohono fel a ganlyn:- • I roi'r wybodaeth ddiweddaraf am sefyllfa alldro'r rhaglen gyfalaf ar gyfer 2024-25, gwariant chwarter 1 a'r gwariant a ragwelir ar gyfer 2025-26 ar 30 Mehefin 2025, y rhaglen gyfalaf ddiwygiedig ar gyfer 2025-26 i 2034-35 a'r Dangosyddion Darbodus ac Eraill a ragwelir ar gyfer 2025-26. • Roedd Atodiad A i'r adroddiad yn adlewyrchu'r cyllidebau a'r gwariant ar gyfer y cynlluniau unigol yn 2024-25. • Dangosodd Atodiad B y cyllidebau, y gwariant hyd yma a'r gwariant diwedd blwyddyn a ragwelir ar 30 Mehefin 2025 ar gyfer y cynlluniau unigol yn 2025-26. • Nododd Atodiad C y rhaglen gyfalaf ddiwygiedig ar gyfer 2025-26 i 2033-35. • Er bod Atodiad D yn darparu manylion y Dangosyddion Darbodus gwirioneddol a Dangosyddion eraill ar gyfer 2024-25 a'r Dangosyddion Darbodus ac Eraill a ragwelir ar gyfer 2025-26. Roedd paragraff 3.5.3 o'r Rheolau Gweithdrefn Ariannol yn ei gwneud yn ofynnol i'r Prif Swyddog Cyllid adrodd bob chwarter i'r Cabinet a'r Cyngor gyda diweddariad ar y Strategaeth Gyfalaf a'r Dangosyddion Darbodus. Roedd yr adroddiad yn bodloni'r gofyniad hwnnw. Cynghorodd y Dirprwy Arweinydd, yn absenoldeb yr Aelod Cabinet perthnasol, fod BCBC fel Cyngor yn parhau i reoli Rhaglen Gyfalaf fawr ac uchelgeisiol. Gellid gweld hyn yn ei fuddsoddiad mewn ysgolion, priffyrdd, adfywio economaidd, yn ogystal â mewn adeiladau eiconig, fel Neuadd y Dref Maesteg. Roedd swyddogion wedi cyrchu £85m i gefnogi gwariant cyfalaf yr awdurdod lleol eleni, sy'n cyfateb i oddeutu 56% o gyfanswm cost y gwariant hwn yn cael ei ariannu gan gyllid allanol yn hytrach na BCBC. Lleisiodd Aelod rywfaint o bryder ynglŷn â'r Rhaglen Gyfalaf. Dywedodd fod y Cyngor y llynedd ym mis Chwefror wedi cytuno ar raglen o dros £110m, er mai dim ond tua hanner y swm hwn y gwnaeth ei alldroi. Ychwanegodd, gan seilio hynny ar gyfrifiadau eleni, y byddwn felly yn cyflawni hyd yn oed llai na hyn o ran canran, eleni. Cynghorodd yr Arweinydd fod nifer o resymau pam fod llithriad wedi bod y llynedd. Sicrhodd y Cyngor, fodd bynnag, y byddai mwy o wiliadwriaeth yn y dyfodol o ran gwariant mewn perthynas â'r Rhaglen
-------------------------------	--

	Gyfalaf a chwblhau'r cynlluniau a gynhwysir ynddi yn amserol. Erbyn hyn roedd byrddau Rhaglen Monitro Rhaglenni Cyfalaf misol (yr oedd yn aelod ohonynt), a byddai'r corff hwn yn cadw llygad agos ar y gwahanol brosiectau a oedd yn cael eu cyflwyno fel rhan o'r rhaglen gyda'r nod o gwblhau'r rhain o fewn y gyllideb. Roedd cyfanswm y gost a ymrwymwyd i'r rhaglen bellach oddeutu £156m, ychwanegodd. Yna, rhoddodd grynodedb o rai o'r cynlluniau a glustnodwyd o fewn y rhaglen, a fyddai'n dod â budd enfawr i'r Fwrdeistref Sirol ac yn gwella cyfleusterau o fewn y Fwrdeistref Sirol. Gofynnodd Aelod a oedd amcangyfrif dangosol ar y buddsoddiadau cyfalaf fel y'u manylwyd, o ran a oeddent yn gost refeniw positif i'r awdurdod (neu beidio), yn hytrach na bod yn gost negyddol a fyddai'n rhoi pwysau ar ein cyllideb refeniw. Cynghorodd y Prif Swyddog – Cyllid, Tai a Newid fod y gwahanol oblygiadau cyfalaf a refeniw wedi'u hystyried yng ngwaith blaengynllunio'r Cyngor ar gyfer ei gyllideb refeniw. Roedd Aelod o'r farn y byddai'n ddiddorol meincnodi gydag awdurdodau lleol eraill yng Nghymru, i weld sut rydym yn cymharu o ran llithriad cynlluniau ac i gyflawni'r rhain mewn amser, yn ogystal â chymharu'r heriau y mae pob un ohonynt yn eu hwynebu, er enghraifft, a oedden nhw'r un fath neu'n wahanol i raddau helaeth mewn unrhyw ffordd. Cynghorodd y Prif Swyddog – Cyllid, Tai a Newid, fod y rhan fwyaf o awdurdodau lleol yn yr un sefyllfa â BCBC i raddau helaeth, o ran wynebu'r heriau uchod yn y Rhaglen Gyfalaf. <u>PENDERFYNWYD:</u> Bod y Cyngor: • Wedi nodi Alldro Rhaglen Gyfalaf y Cyngor ar gyfer 2024–25 (Atodiad A i'r adroddiad). • Wedi nodi diweddariad Chwarter 1 Rhaglen Gyfalaf 2025–26 y Cyngor hyd at 30 Mehefin 2025 (yn Atodiad B) • Wedi cymeradwyo'r Rhaglen Gyfalaf ddiwygiedig, gan nodi'r llithriad o £25.370 miliwn i 205-26, ac yn cymeradwyo'r cyfyngiadau rhwng cynlluniau a chynlluniau/ychwanegiadau newydd o £44.485 miliwn i'r rhaglen gyfalaf (Atodiad C). • Wedi nodi'r Dangosyddion Darbodus ac Eraill gwirioneddol ar gyfer 2024–25 a'r dangosyddion rhagamcanol ar gyfer 2025–26 (Atodiad D).
Dyddiad y Gwnaed y Penderfyniad	23 Gorffennaf 2025

--	--

173. Adroddiad Aildro Rheoli'r Trysorlys 2024–25

Y Penderfyniad a Wnaed	Cyflwynodd y Prif Swyddog – Cyllid, Tai a Newid adroddiad, er mwyn:- • Cydymffurfio â gofynion Rheoli Trysorlys y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifeg (CIPFA) yn y Cod Ymddygiad Gwasanaethau Cyhoeddus (y Cod TM) i adrodd trosolwg o weithgareddau'r trysorlys ar gyfer y flwyddyn ariannol flaenorol. • Adrodd ar y Dangosyddion Rheoli Trysorlys gwirioneddol ar gyfer 2023-24. Amlinellodd yr adroddiad weithgaredd Rheoli'r Trysorlys ar gyfer y cyfnod blyneddol o 1 Ebrill 2024 – 31 Mawrth 2025. Cadarnhaodd y Prif Swyddog – Cyllid, Tai a Newid fod gan y Cyngor £103.80 miliwn o ddyled hirdymor ar 31 Mawrth 2025, £15.66 miliwn o rwymedigaethau hirdymor eraill a sefyllfa ddyled net gyffredinol o £82.71 miliwn. Y gyfradd llog gyfartalog ar gyfer dyled oedd 4.73% (gan gynnwys benthyca Salix a oedd yn ddi-log). Ar gyfer buddsoddiadau yn ystod y flwyddyn, roedd yn 4.39%. Mae gan y Cyngor strwythur aeddfedrwydd benthyca y gellir ei reoli, gyda'i ddyled bresennol yn ad-daladwy ar wahanol adegau dros y 30 mlynedd nesaf. Mae'n ofynnol i'r Cyngor osod ac adrodd yn erbyn Dangosyddion Rheoli Trysorlys, y cynhwyswyd manylion amdanynt yn Atodiad A i'r adroddiad. Roedd y rhain yn adlewyrchu bod y Cyngor yn gweithredu o fewn y terfynau cymeradwy trwy gydol y flwyddyn. Cynghorodd y Prif Swyddog – Cyllid, Tai a Newid bod y Cyngor hefyd wedi cydymffurfio â Chod Rheoli Trysorlys y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifeg a Chanllawiau Buddsoddi Llywodraeth Cymru. <u>PENDERFYNWYD:</u>
------------------------	---

Bod y Cyngor:

	• Wedi nodi gweithgareddau rheoli'r trysorlys ar gyfer 2024–25 am y flwyddyn 1 Ebrill 2024 i 31 Mawrth 2025. • Hefyd wedi nodi'r Dangosyddion ar gyfer Rheoli'r Trysorlys ar gyfer y flwyddyn sy'n dod i ben 31 Mawrth 2025 yn erbyn y rhai a gymeradwywyd yn Strategaeth Rheoli'r Trysorlys 2024–25.
Dyddiad y Gwnaed y Penderfyniad	23 Gorffennaf 2025

174. Swyddog Cofrestru Etholiadol a Swyddog Canlyniadau

Y Penderfyniad a Wnaed	Cyflwynodd Rheolwr y Grŵp – Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd adroddiad, er mwyn ceisio cymeradwyaeth y Cyngor i benodi'r Swyddog Cofrestru Etholiadol (ERO), y Swyddog Canlyniadau a'r Dirprwy ERO. Mewn cyfarfod blaenorol, penododd y Cyngor Jake Morgan fel Prif Weithredwr a Phennaeth Gwasanaeth Taledig y Cyngor. Mae'n ofynnol i'r Cyngor gydymffurfio â'r gofynion o dan Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983, mewn perthynas â phenodi Swyddog Canlyniadau a Swyddog Cofrestru Etholiadol y Cyngor. Roedd y rhain yn rolau statudol y mae'n rhaid i'r Cyngor eu penodi iddynt. Mae'r rolau hyn wedi'u cynnwys yn Swydd-ddisgrifiad y Prif Weithredwr ac felly argymhellir bod y Prif Weithredwr newydd yn cael ei benodi'n ffurfiol i ymgymryd â'r rolau hyn. Roedd penodi Dirprwy Swyddog Cofrestru Etholiadol ERO hefyd yn swyddogaeth y Cyngor ac mae'n ofynnol i sicrhau y gellir gweithredu'r penderfyniadau etholiadol angenrheidiol pan nad yw'r ERO ar gael. Heb benodiad o'r fath, mae risg y gall etholwyr fod dan anfantais. Felly, argymhellwyd bod y Prif Swyddog – Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoleiddio, Adnoddau Dynol a Pholisi Corfforaethol yn cael ei benodi'n Ddirprwy ERO gyda phwerau llawn, gan ei galluogi i weithredu yn analluogrwydd neu absenoldeb yr ERO yn ôl yr angen. Ychwanegodd Rheolwr y Grŵp – Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd, er mwyn caniatáu mwy o hyblygrwydd, cynigiwyd rhoi awdurdod dirprwyedig i'r Prif Weithredwr i benodi mwy o ddirprwyon ac i ddirymu neu amrywio penodiadau o'r fath yn ôl yr angen.
------------------------	---

CYNGOR - DYDD MERCHER, 23 GORFFENNAF 2025

	Yng ngoleuni'r ddadl a ddilynodd yn y cyfarfod a chyfres o gwestiynau gan yr Aelodau a ymatebwyd iddynt gan y Swyddog Arweiniol, cytunodd y Cyngor i beidio â chefnogi Argymhelliad (3) yr adroddiad, h.y. bod y Cyngor 'yn dirprwyo awdurdod i'r Prif Weithredwr i benodi mwy o ddirprwyon ac i ddirymu neu amrywio penodiadau o'r fath yn ôl yr angen.' Felly, <u>PENDERFYNWYD:</u> Bod y Cyngor: (1) Yn cymeradwyo penodi'r Prif Weithredwr fel y Swyddog Cofrestru Etholiadol a'r Swyddog Canlyniadau. (2) Yn cymeradwyo ymhellach benodiad y Prif Swyddog – Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoleiddio, Adnoddau Dynol a Pholisi Corfforaethol fel y Dirprwy Swyddog Cofrestru Etholiadol.
Dyddiad y Gwnaed y Penderfyniad	23 Gorffennaf 2025

175. Penodiadau i'r Pwyllgor Safonau

Y Penderfyniad a Wnaed	Cyflwynodd y Swyddog Monitro adroddiad, a'i bwrpas oedd cynghori'r Cyngor am ddau benodiad Aelod Annibynnol (cyfetholedig) i'r Pwyllgor Safonau, gan fod dwy swydd wag o'r fath ar y Pwyllgor. Nododd aelod y pwynt bod panel o'r Pwyllgor Safonau wedi argymhell penodi'r ddau Aelod Annibynnol fel y cyfeirir atynt yn yr adroddiad a bod y penodiadau wedi'u hadrodd i'r Pwyllgor Safonau llawn ar 22 Gorffennaf 2025. Fodd bynnag, gofynnodd a ddylid rhannu addasrwydd unrhyw ymgeiswyr posibl ar lefel uwch, o bosibl gyda'r Cyngor, yng ngoleuni'r ffaith bod aelodau'r Pwyllgor hwnnw yn eistedd ac yn gwneud dyfarniadau a phenderfyniadau o natur ddisgyblu weithiau, ar aelodau'r Fwrdeistref Sirol a'r Cynghorau Tref a Chymunedol. Wrth awgrymu y gellid ystyried hyn ymhellach yn y dyfodol, ychwanegodd y Swyddog Monitro mai'r broses
------------------------	---

CYNGOR - DYDD MERCHER, 23 GORFFENNAF 2025

	uchod a ddilynwyd oedd y broses fel yr argymhellir yn y rheoliadau priodol, gan gadarnhau hefyd bod cynrychiolaeth Cyngor Bwrdeistref Sirol ar y panel penodi a'r Pwyllgor Safonau. <u>PENDERFYNWYD:</u> Bod y Cyngor yn cymeradwyo penodiadau Janet Evans a Martyn Daley i'r Pwyllgor Safonau.
Dyddiad y Gwnaed y Penderfyniad	23 Gorffennaf 2025

176. Derbyn y Cwestiwn canlynol gan:

Y Penderfyniad a Wnaed	Y Cynghorydd Colin Davies i'r Aelod Cabinet dros Addysg a Gwasanaethau Ieuenctid (cylchredwyd yr ymateb yn flaenorol i'r Aelodau). Gofynnwyd cwestiwn atodol gan y Cynghorydd Davies a gafodd ymateb iddo yn y cyfarfod.
Dyddiad y Gwnaed y Penderfyniad	23 Gorffennaf 2025

177. Hysbysiad o gynnig a gynigiwyd gan y Cynghorydd Martin Williams

Y Penderfyniad a Wnaed	Derbyniwyd yr Hysbysiad o Gynnig a gynigiwyd gan y Cynghorydd Williams fel y'i manylir yn eitem 12 ar Agenda'r cyfarfod, yn amodol ar ei welliant arfaethedig a roddwyd ar lafar yn y cyfarfod, a eiliwyd ac a gefnogwyd yn briodol gan y Cyngor. Roedd y Cynnig diwygiedig fel a ganlyn:- 'Bod y Cyngor hwn yn cydnabod yr heriau a wynebwyd gennym wrth recriwtio gweithredwyr i dorri glaswellt yn dilyn y penderfyniad i drafod y mater yn fewnol a'r effaith a gafodd hynny ar ein cymunedau. O dan yr ethos o weithio ar y cyd, rydym felly yn penderfynu gofyn i'r Cabinet ystyried cysylltu â phob
------------------------	--

CYNGOR - DYDD MERCHER, 23 GORFFENNAF 2025

	cyngor tref a chymuned cyn gynted â phosibl a chynnig eu talu i gyflawni'r gwasanaeth yn eu hardal i gefnogi'r Awdurdod hwn os ydynt yn fodlon ac yn gallu, pe bai heriau i'r gwasanaeth yn y dyfodol yn cael eu hwynebu eto.'
Dyddiad y Gwnaed y Penderfyniad	23 Gorffennaf 2025

178. Hysbysiad o Gynnig a gynigiwyd gan y Cynghorydd Ian Spiller

Y Penderfyniad a Wnaed	Cytunodd y Cyngor yn unfrydol ar yr Hysbysiad o Gynnig fel y'i cynigiwyd gan y Cynghorydd Spiller fel y manylir yn eitem 13 ar Agenda'r cyfarfod.
Dyddiad y Gwnaed y Penderfyniad	23 Gorffennaf 2025

179. Hysbysiad o Gynnig a gynigiwyd gan y Cynghorydd Tim Thomas

Y Penderfyniad a Wnaed	Cynigiwyd Hysbysiad o Gynnig gan y Cynghorydd Thomas, fel y manylir yn eitem 14 ar Agenda'r cyfarfod. Cynigiwyd diwygiad i'r Hysbysiad o Gynnig. Ar ôl iddo gael ei eilio'n briodol ac yn dilyn rhywfaint o ddadl, cytunwyd arno gan y Cyngor. Cytunwyd ar yr Hysbysiad o Gynnig felly, fel y'i diwygiwyd, fel a ganlyn:- 'Bod y Cyngor hwn, 1.Yn cefnogi Llywodraeth y DU i wrando ar y cyhoedd a gwrthdroi'r diwygiadau lles arfaethedig a fyddai wedi effeithio'n andwyol ar drigolion anabl ledled y wlad, gan gynnwys ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr. 2. Yn cydnabod yr effaith negyddol sylweddol ac anghymesur y byddai'r newidiadau lles hyn wedi'u cael ar
------------------------	--

	les, diogelwch ariannol, ac urddas pobl anabl leol a'u teuluoedd. 3. Yn croesawu penderfyniad y Llywodraeth i wrthdroi'r diwygiadau lles hyn fel cam cadarnhaol i ddiogelu hawliau a bywoliaethau trigolion anabl ym Mhen-y-bont ar Ogwr. 4. Yn cydnabod gwaith caled grwpiau eiriolaeth anabledd, ymgyrchwyr, a thrigolion sydd wedi lleisio eu pryderon ac wedi dylanwadu ar y penderfyniad hwn. 5. 'Yn galw ar Arweinydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr i ysgrifennu at Brif Weinidog y DU, Prif Weinidog Cymru, ac i barhau i lobïo ein Haelodau Seneddol lleol i: • Sicrhau pwysigrwydd parhaus ystyriaethau lles ym mholisiau Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru yn y dyfodol • Pwysleisio pwysigrwydd cymorth ac amddiffyniad parhaus i breswylwyr anabl. • Annog y ddwy Lywodraeth i barhau i ymgysylltu'n agos â Chynghorau lleol, sefydliadau anabledd, a chymunedau wrth ddatblygu polisiau lles yn y dyfodol. 6. Yn ailddatgan ymrwymiad y Cyngor i gefnogi preswylwyr anabl drwy sicrhau bod gwasanaethau lleol yn hygyrch, yn gynhwysol a bod ganddynt adnoddau digonol.'
Dyddiad y Gwnaed y Penderfyniad	23 Gorffennaf 2025

180. Eitemau Brys

Y Penderfyniad a Wnaed	Nid oedd unrhyw eitemau brys.
Dyddiad y Gwnaed y Penderfyniad	23 Gorffennaf 2025

CYNGOR - DYDD MERCHER, 23 GORFFENNAF 2025

I arsylwi'r ddadl bellach a gynhaliwyd ar yr eitemau uchod, cliciwch ar y [ddolen](#) hon

Daeth y cyfarfod i ben am 18:23.